Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-01-04 (p.2)

Dyddiad: 21 Ionawr 2004

Amser: 9.00am – 12.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADOLYGIAD POLISI: CYFRANIAD Y CELFYDDYDAU A CHWARAEON I ADFYWIO CYMUNEDOL – CRYNODEB O'R YMATEBION

Mae'r papur sydd ynghlwm yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a wnaed o dan bob pennawd yn y Cylch Gorchwyl. Gwelir o dan Atodiad 1 restr o'r ymatebwyr.

Trafodaeth

Gwelwyd rhai themâu yn codi dro ar ôl tro drwy rai neu'r rhan fwyaf o'r materion dan sylw, sef:

- Roedd manteision amlwg i'w gweld yn deillio o brosiectau adfywio cymunedau i unigolion a chymunedau fel ei gilydd.
- Dylai polisïau'r celfyddydau a chwaraeon gael eu cysylltu â gwell rhwydwaith er mwyn sicrhau'r lles mwyaf i'r gymuned.
- Rhaid gwella'r system o gael hyd i gyllid er mwyn galluogi grwpiau amhrofiadol i wneud cais.
- Buddsoddiad hirdymor mewn prosiectau oedd yr allwedd i lwyddiant.

Cyngor

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi canlyniadau'r adolygiad ac ystyried y materion y mae am ymchwilio ymhellach iddynt yn ystod y sesiynau sydd i ddilyn ar gyfer tystiolaeth lafar.

Yr Adolygiad

Anfonwyd y gwahoddiadau i gyfrannu at yr adolygiad ar 3 Hydref 2003 a gofynnwyd am yr ymatebion yn ôl erbyn 5 Rhagfyr 2003. Hyd yma, cafwyd 41 ymateb gan academyddion, awdurdodau lleol, cyhoeddwyr, cyrff cyhoeddus diwylliannol, mudiadau gwirfoddol a rhanddeiliaid eraill. Gofynnwyd i'r bobl yr ymgynghorwyd â nhw wneud sylwadau ar y canlynol:

- Y cysylltiadau rhwng polisi'r celfyddydau, y polisi chwaraeon ac adfywio cymunedol.
- Sut y gall prosiectau lleol yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon gyfrannu at adfywio cymunedol.
- Dulliau o gefnogi prosiectau yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol.
- Arferion gorau mewn prosiectau yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol.

CRYNODEB O'R YMATEBION

Y cysylltiadau rhwng polisi'r celfyddydau, y polisi chwaraeon ac adfywio cymunedol

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei bod hi'n hanfodol y dylai polisïau sy'n ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon gael eu cysylltu gyda'i gilydd er mwyn cynorthwyo â "the regeneration of wealth and cultural building in Wales".

Prin yr anghytunai neb chwaith â manteision amlwg adfywio cymunedol, gan gynnwys cynnydd economaidd a chymdeithasol a chwalu rhwystrau gan roi ffocws i gymuned.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, teimlir bod y cysylltiadau'n wan oherwydd y diffyg rhwydweithio rhwng y gwahanol gyrff perthnasol. Mae meithrin cyswllt ag asiantaethau sy'n gyfrifol am waith cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol yn anodd oherwydd y canfyddiad bod a wnelo'r celfyddydau ag adloniant a hamdden yn bennaf.

Dywedodd sawl un a ymatebodd nad oedd polisïau'r celfyddydau a chwaraeon yn derbyn y gydnabyddiaeth yr oedd ei hangen arnynt am nad oedd y llywodraeth yn sylweddoli pa mor hanfodol y maent i adfywio cymunedol. Ymhellach, awgrymwyd: "Often bodies view arts and sport bodies as insignificant, while arts and sports bodies regard community developemnt work as additional to their main functions and not as important."

Awgrymwyd y gallai proffesiynoldeb ymddangos yn fygythiad yn aml i draddodiadau lleol oherwydd, ar lawr gwlad, roedd y syniad o ariannu unigolyn i hyrwyddo gweithgareddau celfyddydol yn eu cymunedau yn ddieithr ac yn annaturiol.

Derbyniwyd sylwadau gan nifer o fudiadau gwirfoddol a gytunai fod proffil isel yn aml iawn i'w gwaith a bod yna ganfyddiad mai rhywbeth "ychwanegol" ydoedd i raglenni adfywio ehangach.

O ran cael atebion i'r problemau a wynebent, awgrymwyd mai dim ond drwy weithio ar draws adrannau y gellid datblygu'r materion dan sylw gan sicrhau cyllid hirdymor a chymhareb uchel rhwng staff a phobl a gymerai ran. Un farn oedd y dylid dweud wrth Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru yn eu llythyron cylch gorchwyl am bwysleisio cefnogi Cymunedau yn Gyntaf.

Sut y gall prosiectau lleol yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon gyfrannu at adfywio cymunedol.

Prin yr anghytunai neb â manteision penna'r celfyddydau a chwaraeon i adfywio cymunedol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod prosiectau'n ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon yn llwyddo i:

- Ddwyn ynghyd wirfoddolwyr o fewn y gymuned.
- Creu mwy o swyddi e.e. yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r sector twristiaeth.
- Denu busnesau i'r ardal ar ôl iddi gael ei gweddnewid, drwy gelfyddyd gyhoeddus o bosib.
- Denu twristiaeth a thwristiaeth ddiwylliannol.
- Ymgysylltu â phobl ac yn eu cymell, gan roi hyder iddynt.
- Gwella ymwneud pobl â'i gilydd.
- Dod ag incwm ychwanegol i'r gymuned.
- Galluogi i gysylltiadau eraill gael eu datblygu â phrosiectau eraill yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyng-genedlaethol.

Un o'r prif themâu y tynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylw ati oedd effaith bositif prosiectau o'r fath ar bobl ifanc y gymuned. Cytunai'r ymatebwyr fod prosiectau o'r fath:

- Yn helpu pobl ifanc i chwarae rôl fwy adeiladol yn y gymuned.
- Yn darparu hyfforddiant ar gyfer swyddi a chymwysterau.
- Yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, e.e camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Yn cynnig ffordd o fyw sy'n iachach.
- Yn hybu pobl ifanc i fod yn fwy creadigol.
- Yn ailennyn diddordeb rhieni yn addysg eu plant.

Roedd yr ysbryd cymunedol yn thema a welwyd dro ar ôl tro yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Awgrymwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod prosiectau cymunedol:

- Yn adeiladu cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol rhwng pobl
- Yn annog cydweithredu rhwng pobl o wahanol hil gan chwalu rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol.
- Yn adeiladu ysbryd cymunedol ac ymdeimlad da rhwng pobl â'i gilydd.
- Yn peri i bobl deimlo eu bod yn gallu cyflawni rhywbeth.
- Mae prosiectau a gaiff eu rheoli'n lleol yn sicrhau bod yna alw gwirioneddol am weithgareddau a'u bod yn gynaliadwy.
- Yn fodd i chwalu'r diffyg ymddiriedaeth rhwng grwpiau cymdeithasol gwahanol, h.y. yr hen a'r ifanc, pobl abl a phob anabl, yr heddlu a phobl ifanc.
- Yn fodd i ailymgysylltu â dysgwyr heb gyfeirio at "addysg".

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y diffyg blaenoriaeth a roddwyd, i chwaraeon yn arbennig, gan nifer mawr o awdurdodau lleol. O ganlyniad, awgrymwyd ein bod yn llusgo y tu ôl i Ewrop gyda'n

darpariaeth ar gyer cyfleusterau chwaraeon. Roedd y diffyg ymateb i'r adolygiad a dderbyniwyd gan gymdeithasau chwaraeon yn amlwg. Yn ogystal â hynny, teimlwyd bod angen buddsoddi realistig hirdymor ar gyfer gwyliau celfyddydol a chystadlaethau chwaraeon yng Nghymru er mwyn rhoi proffil uwch iddynt.

Dulliau o gefnogi prosiectau yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol.

Thema a welwyd dro ar ôl tro oedd cyllid. Câi ei ystyried gan bron yr holl ymatebwyr fel yr allwedd i lwyddiant unrhyw brosiect cymunedol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr anawsterau a wynebent wrth wneud cais am gyllid Ewropeaidd o dan Amcan 1, 2 a 3. Roeddent o'r farn fod hyn wedi cael effaith andwyol ar y gronfa Sportlot. Yn ogystal â hynny, dywedodd y cyrff celfyddydol gwirfoddol a chymunedol eu bod wedi'u gorfodi i weithredu'n debycach i fusnes wrth wneud cais am gyllid a dod o hyd i gyllid o ffynonellau eraill.

Fel ateb i hyn, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gallai'r awdurdodau lleol ryngweithio rhwng y celfyddydau, cyrff chwaraeon a'r sector busnes. Un farn oedd y dylai'r Cynlluniad sicrhau bod gan bob awdurdod lleol ddatganiad polisi i gwmpasu'r celfyddydau, chwaraeon ac adfywio cymunedol.

Awgrymwyd hefyd y dylai refeniw craidd fod ar gael ar gyfer celfyddydau cymunedol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac y dylai Cyngor Chwaraeon Cymru gefnogi cymdeithasau chwaraeon, clybiau a chymdeithasau yn y gymuned ac nid nifer bychan o chwaraeon elit yn unig.

Awgrymwyd mai buddsoddi hirdymor, yn hytrach na chyllid ar gyfer prosiectau, oedd y ffordd ymlaen. Bydd angen sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau na fydd disgwyliadau pobl yn cael eu codi, gan arwain yn y pen draw at siom. Un farn oedd y dylai cyllid gael ei roi ar gyfer prosiectau am 5 mlynedd fan leiaf yn hytrach na 3 blynedd. Awgrymodd un arall y dylai cymorth ariannol dros gyfnod hir gael ei roi i ddarparwyr sy'n llwyddo'n gyson.

Cytunai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r sector gwirfoddol sydd fwyaf agored i'r gostyngiad yn y cyllid o gronfeydd y Loteri. Awgrymwyd y dylai'r ddau wasanaeth (y celfyddydau a chwaraeon) gael eu gwneud yn statudol os oedd adfywio cymunedol i'w ystyried o ddifrif. Os yw'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o hyd, yna gallai beri i wirfoddolwyr anobeithio.

Dyma'r sylwadau eraill a wnaed yngln â'r dulliau cefnogi:

- Cymunedau yn Gyntaf yw'r cynllun cymorth mwyaf.
- Mae rôl ysgolion Cymunedol yn hanfodol.
- Dylai awdurdodau lleol roi mwy o gefnogaeth am nad oes gan grwpiau lleol yn aml iawn yr wybodaeth sy'n ofynnol i fynd drwy'r broses.
- Dylai partneriaid ddarparu adnoddau datblygu prosiectau er mwyn cynnig cymorth proffesiynol i

gwblhau ffurflenni cais a datblygu cynlluniau busnes.

- Mae cysylltiadau cymunedol cryf gyda'r gymuned leol a'r partneriaid perthnasol yn hanfodol.
- Dylid buddsoddi yn y strwythurau sydd eisoes yn bod i gefnogi prosiectau'n ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon.

Grwpiau cymorth allweddol eraill a awgrymwyd:

- Athrawon.
- Swyddogion celfyddydau awdurdodau lleol.
- Cymunedau busnes.
- Ymddiriedolaethau.
- Cyfranwyr unigol.

Arferion gorau mewn prosiectau yn ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon sy'n gysylltiedig ag adfywio cymunedol.

Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr enghreifftiau unigol o'u llwyddiannau heb nodi'r ffactorau allweddol a oedd yn gyfrifol am eu llwyddiant.

Y brif thema yma oedd y cydweithredu â chymunedau i ddod o hyd i atebion lleol ar gyfer problemau lleol. Dylai'r gymuned ei hun gymryd yr awenau dros brosiect i raddau helaeth er mwyn sicrhau perchenogaeth o'r prosiect ac na fydd siom os na chaiff addewidion eu gwireddu. Un farn a fynegwyd oedd y dylai'r gymuned gael gwybod am gynlluniau newydd yn y celfyddydau a chwaraeon ac y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen gan bobl rannol ddall neu ddall.

Awgrymwyd y dylai'r prosiectau fod o fewn cyrraedd pobl o bob oed, rhyw, gallu a chefndir diwylliannol ac y dylai amcanion clir gael eu gosod cyn y cyfnod cyllido ac ar ddiwedd y cyfnod cyllido a sut y bwriedir cyflawni'r amcanion hynny.

Yn nhermau cynorthwyo'r gymuned i sefydlu prosiectau, un farn a fynegwyd oedd y byddai buddsoddi ymhellach mewn monitro, gwerthuso ac ymchwilio i brosiectau'n ymwneud â'r celfyddydau yn helpu i fesur manteision hirdymor yn ogystal â nodi arferion gorau. Barn arall a fynegwyd oedd y dylai partneriaid a oedd ynghlwm wrth brosiectau o'r fath fod yn ymrwymedig, y dylent fod yn briodol at y gwaith ac y dylid pennu cyfraniadau realistig ar eu cyfer gan ddefnyddio staff brwdfrydig o wahanol gyrff er mwyn datblygu syniadau newydd.

Awgrymodd un a ymatebodd y gallai Cymru'n Creu ddatblygu banc gwybodaeth o gyrff celfyddydol perthnasol a chaniatáu i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ddefnyddio'r arbenigedd hwn.

Yn ofal, teimlwyd bod marchnata yn rhan hanfodol o brosiectau adfywio cymunedol.

Atodiad 1 (Saesneg yn unig)

Respondents to the Policy Review of the Contribution of Arts and Sport to Community Regeneration

Respondent	Organisation	Position
Craig Jones	Monmouthshire County Council (Youth Sport and Art Initiative)	
Jim O'Rourke	Urdd Gobaith Cymru	Chief Executive
Dafydd Gittins	Columbia Publishing Wales Ltd	Managing Director
Dr Ann Gosse	Denbighshire County Council	Assistant Director: Culture and Leisure
Michael Watkins	Personal	
Lydia Bassett	Voluntary Arts Wales	Wales Coordinator
Colin Crayford	Personal	
John Hallam	Maindee Festival Association	Chairperson
Bill Hamblett	Small World Theatre	Co-artistic Director
Maggie Hampton	Arts Disability Wales	Operational Manager
Chris Ryde	Wales Association for the Performing Arts	Chair
Kate Hughes	RNIB Cymru	Political Affairs Officer

Gill Dowsett	Theatr Fforwm Cymru	
Aled Rhys-Jones	Drama Association of Wales	Director
Mike Hotson	Personal	
Steve Garrett	Wales Association of Community Artists	Chair
Janek Alexander	Chapter Arts Centre	Director
John Parsons	Blaenau Gwent County Borough Council	Director of Community Services
Ruth Till	Rubicon Dance	Director
Wiard Sterk	CBAT The Arts and Regeneration Agency	Director
Gillian Dale	Community Dance Wales	Development Director
Iwan Brioc	Cynefin	Director
Cathy Jones	NoFit State Circus	Administrator
Professor Dai Smith	University of Glamorgan	Pro Vice-Chancellor
Wynn Davies & Alf Ropke	Institute of Leisure and Amenity Management Cymru Executive	Joint Chairmen
Huw G Jones	Sports Council for Wales	Chief Executive
Alice Greenlees	Wales Council for Voluntary Action	Policy officer
Carol Brown	Tawe Afan Nedd Dance	Artistic Director
Peter Finch	The Welsh Academi	Chief Executive
Alex Brown	Valley and Vale Community Arts	Director
Mark Shephard	Bridgend County Borough Council	Assistant Director, Education, Leisure and Community Services

Joanna Weston	Audit Commission in Wales	
Elwyn Williams	Conwy County Borough Council	Corporate Director, Directorate of Lifelong Learning
Audrey Jones	Wales Assembly of Women, Cardiff and Vale of Glamorgan	
Heather Summers	Women In Tune	Development Co-ordinator
Caroline Leech	Welsh National Opera	Head of Press and Public Affairs
John Howells	S4C	Secretary
Megan Wilde	Groundwork Wales	Communication and Policy Officer
Julie Evans	Rhondda Cynon Taff Community Arts	Director
Angela Rogers	engage	engage Cymru Development Co-ordinator